CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 9 Rhagfyr 2013

Rhif Union: 01824706141

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 17 RHAGFYR 2013** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG A'R CYHOEDD FYNYCHU'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiadau personol neu rai sy'n rhagfarnu gydag unrhyw fater a nodwyd y dylid ei ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2013 (copi ynghlwm).

**5 YSGOL CLOCAENOG AC YSGOL CYFFYLLIOG** (Tudalennau 13 - 94)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol Addysg (copi ynghlwm) yn nodi manylion canfyddiadau ymgynghoriad ffurfiol ynglŷn â dyfodol Ysgol Clocaenog ac Ysgol Cyffylliog a gofyn am gefnogaeth i gyhoeddi'r cynigion statudol hanfodol ar gyfer cau'r ddwy ysgol a chreu ysgol newydd.

**6 STRATEGAETH Y PARTH CYHOEDDUS** (Tudalennau 95 - 130)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus (copi ynghlwm) yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet ar gyfer drafft Strategaeth y Parth Cyhoeddus a'r Cynllun Gwella perthnasol.

**7 ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL (CHWARTER 2 2013/14)** (Tudalennau 131 - 168)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad (copi ynghlwm) yn diweddaru'r Cabinet ynglŷn â darparu'r Cynllun Corfforaethol 2012-17 ar ddiwedd chwarter 2 2013/14.

**8 ADNEWYDDU CONTRACT – MATRICS** (Tudalennau 169 - 170)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad (copi ynghlwm) yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet i adnewyddu Contract Matrics ar gyfer Fframwaith MSTAR.

**9 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 171 - 184)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi ynghlwm) yn nodi manylion y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb a gytunwyd.

**10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 185 - 190)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet amgaeedig a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2- EITEMAU CYFRINACHOL**

EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod y materion canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

**11 DYFARNU CONTRACT AR GYFER GWAREDU GWASTRAFF GWEDDILLIOL** (Tudalennau 191 - 198)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus (copi ynghlwm) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contractau ar gyfer casglu gwastraff gweddilliol.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Hugh Evans | Hugh Irving |
| Julian Thompson-Hill | Huw Jones |
| Eryl Williams | Barbara Smith |
| Bobby Feeley | David Smith |

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned